

Yn Hysbys, Yn Cael Eu Cynnwys Ac Yn Uchelgeisiol: Hybu addysg dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal

Pecynnau cymorth i ddarparwyr

Hydref 2026

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan awdurdodau lleol, neu sy'n cael arian ganddynt
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi Cymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, Medr ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon/cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei chyhoeddi/gyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r cynnwys at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon neges e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae hwn a holl gyhoeddiadau eraill Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cynnwys Tudalen

Cyflwyniad 1

Pecyn cymorth 1: Gwerthuso arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol 2

Pecyn cymorth 2: Gwerthuso dysgu, lles a dilyniant 4

Pecyn cymorth 3: Gwerthuso perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr 6

Pecyn cymorth 4: Gwerthuso cyfnodau pontio a pharhad 8

Pecyn cymorth 5: Gwerthuso tegwch a chyfle 10

Atodiad 1: Cwestiynau myfyriol i lywodraethwyr 12

Cyflwyniad

Ym mis Hydref 2026, cyhoeddom adroddiad thematig yn archwilio teithiau addysgol dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae'n gwerthuso pa mor effeithiol y mae ysgolion a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) ac awdurdodau lleol yn hybu addysg, lles a dyheadau dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma: Yn hysbys, yn cael eu cynnwys ac yn uchelgeisiol: Hybu addysg dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal - Estyn

Datblygwyd cyfres o becynnau cymorth i gyd-fynd â'r adroddiad hwn a chefnogi darparwyr yn eu harfer werthuso. Mae'r pum pecyn cymorth, ynghyd â set o gwestiynau myfyriol i lywodraethwyr, i'w gweld isod.

Pecyn cymorth 1: Gwerthuso arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol

Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cefnogi ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol i fyfyrio ar ba mor effeithiol y mae arweinyddiaeth, llywodraethu a threfniadau rhianta corfforaethol yn gwella deilliannau i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Nodweddion arfer gryfach

Mewn arfer gryfach:

- mae arweinwyr yn cynnal disgwyliadau uchelgeisiol o ran cyfranogiad, cyflawniad a chyfleoedd yn y dyfodol
- lle mae profiad o fod mewn gofal yn hysbys, caiff dysgwyr eu deall a chaiff eu cynnydd ei fonitro trwy drefniadau llywodraethu a gwella clir
- caiff cynnydd a chyrhaeddiad addysgol eu monitro ochr yn ochr â phresenoldeb, gwaharddiadau a lles
- caiff CAPau eu defnyddio'n offerynnau cynllunio ac adolygu addysgol effeithiol yn hytrach na dogfennau cydymffurfio
- mae arweinwyr yn deall profiadau a deilliannau'r boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a'r rhai sydd dan drefniadau gofal gan berthynas neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig
- mae trefniadau partneriaeth yn cefnogi camau gweithredu cydlynol
- mae arweinwyr yn gwerthuso effaith cymorth a chyllid ar ddeilliannau addysgol dros gyfnod

Cwestiynau i gefnogi hunanwerthuso

- Sut ydym ni'n gwybod bod ein camau gweithredu yn gwella deilliannau addysgol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?
- Sut ydym ni'n gwybod bod ein disgwyliadau ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr un mor uchelgeisiol â'r rhai ar gyfer dysgwyr eraill?
- Pa mor effeithiol y mae ein systemau'n cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal y mae eu hamgylchiadau'n hysbys, gan barchu dewisiadau teuluoedd ynghylch datgelu a chyfrinachedd?
- Beth mae ein monitro'n ei ddweud wrthym am batrymau mewn cynnydd, cyfranogiad a chyrhaeddiad addysgol?
- Sut ydym ni'n gwybod bod CAPau yn gwella deilliannau addysgol yn hytrach nag yn cofnodi cymorth yn unig?

- Ble gallai dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu, dysgwyr dan drefniadau gofal gan berthynas neu'r rhai sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig gael eu hesgeuluso?
- Pa mor dda y mae llywodraethu, rhianta corfforaethol a threfniadau partneriaeth yn ein herio ynghylch deilliannau addysgol?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod ein cymorth, ein hymyriadau a'n defnydd o gyllid yn gwella deilliannau addysgol?

Ffynonellau tystiolaeth posibl

- gwybodaeth am gynnydd, cyflawniad a phresenoldeb dysgwyr, ochr yn ochr â chyfranogiad mewn dysgu, cyfleoedd cyfoethogi a bywyd ehangach yr ysgol
- CAPau a dogfennau cynllunio eraill i ddysgwyr
- adborth gan ddysgwyr, gofalwyr a staff
- adroddiadau rhianta corfforaethol, llywodraethu a gwella
- cofnodion gweithio mewn partneriaeth a gwaith amlasiantaeth
- gwerthusiadau ariannu ac adolygiadau o effaith
- dogfennau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Pecyn cymorth 2: Gwerthuso dysgu, lles a dilyniant

Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cefnogi ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol i fyfyrio ar ba mor effeithiol y maent yn cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ymgysylltu â dysgu, gwneud cynnydd a chyflawni eu potensial.

Nodweddion arfer gref

Mewn arfer gryfach:

- mae dysgwyr yn cael profiad o amgylcheddau diogel, rhagweladwy a chefnogol sy'n eu helpu i ymgysylltu â'u dysgu
- mae staff yn cynnal disgwyliadau uchelgeisiol ac yn defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ymwybodol o ymlyniad yn gyson mewn arfer bob dydd
- mae cymorth wedi'i deilwra i gryfderau, anghenion ac amgylchiadau unigol dysgwyr, gan ystyried ffactorau a allai effeithio ar ddysgu a chyfranogiad
- mae cymorth, cynllunio'r cwricwlwm a llwybrau ar gyfer y dyfodol yn cyd-fynd â llwyddiant addysgol
- caiff amserlenni llai a llwybrau personoledig eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn gysylltiedig â deilliannau hirdymor uchelgeisiol
- caiff cynnydd, cyflawniad, presenoldeb, cyfranogiad mewn dysgu a bywyd ehangach yr ysgol eu monitro a'u trafod gyda'i gilydd
- mae arweinwyr yn gwerthuso effaith cymorth ac ymyriadau ar ddeilliannau addysgol yn ogystal â chyfranogiad a lles
- caiff dysgwyr eu cefnogi i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol a pharatoi ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y dyfodol

Cwestiynau i gefnogi hunanwerthuso

- Sut ydym ni'n gwybod bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn barod i ddysgu?
- Pa mor gyson y mae dulliau sy'n ystyriol o drawma a dulliau sy'n ymwybodol o ymlyniad yn dylanwadu ar brofiadau dysgwyr o ddydd i ddydd?
- Sut ydym ni'n gwybod bod ein disgwyliadau ar gyfer dysgu a chyflawniad yr un mor uchelgeisiol â'r rhai ar gyfer dysgwyr eraill?
- Beth mae ein tystiolaeth yn ei ddweud wrthym am gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr a'u gallu i fanteisio ar y cwricwlwm, ochr yn ochr â phresenoldeb a lles?
- Sut ydym ni'n gwybod pryd mae dysgwyr yn barod i gymorth gael ei leihau heb beryglu eu cynnydd a'u lles?

- Pa mor dda ydym ni'n deall y rhyngweithiad rhwng y profiad o fod mewn gofal a ffactorau eraill sy'n effeithio ar ddysgu a chyfranogiad?
- Sut ydym ni'n gwybod bod amserlenni llai, darpariaeth amgen a llwybrau personoledig yn gwella ymgysylltiad a deilliannau addysgol heb greu risgiau tymor hwy i fanteisio ar y cwricwlwm, cymwysterau neu gyfleoedd yn y dyfodol?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod cynlluniau cymorth ac ymyriadau yn gwella cynnydd addysgol yn hytrach na dim ond cynnal cyfranogiad dysgwyr mewn addysg?
- Pa mor dda ydym ni'n paratoi dysgwyr ar gyfer addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol?

Ffynonellau tystiolaeth posibl

- gwybodaeth am gynnydd, cyrhaeddiad a chyflawniad dysgwyr
- gwybodaeth am bresenoldeb, gwaharddiadau ac ymddygiad, ochr yn ochr â chyfranogiad mewn dysgu a bywyd ehangach yr ysgol
- gwybodaeth am fanteisio ar y cwricwlwm, llwybrau cymwysterau a chyrchfannau
- CAPau a chynlluniau cymorth eraill i ddysgwyr
- gwaith dysgwyr, asesiadau ac adolygiadau cynnydd
- cofnodion a gwerthusiadau o ymyriadau
- adborth gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff
- arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth, olrhain achosion unigol a thrafodaethau proffesiynol
- dysgu proffesiynol a dogfennau polisi
- dogfennau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Pecyn cymorth 3: Gwerthuso perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr

Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cefnogi ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol i fyfyrio ar ba mor effeithiol y maent yn meithrin perthnasoedd dibynadwy â dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a sicrhau bod barn, profiadau a dyheadau dysgwyr yn dylanwadu ar gymorth a phenderfyniadau.

Nodweddion arfer gryfach

Mewn arfer gryfach:

- gall dysgwyr fynd at oedolion dibynadwy sy'n deall eu profiadau, eu cryfderau a'u dyheadau
- mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi ac yn profi ymdeimlad cryf o berthyn
- mae staff yn dangos dealltwriaeth o'r profiad o fod mewn gofal trwy ryngweithiadau ac ymatebion bob dydd
- gall dysgwyr rannu eu barn trwy sgyrsiau rheolaidd a pherthnasoedd ystyrlon, yn hytrach na thrwy brosesau ffurfiol yn unig
- mae safbwyntiau dysgwyr yn dylanwadu ar benderfyniadau am eu cymorth, eu dysgu a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol
- mae dysgwyr yn deall sut mae eu barn wedi dylanwadu ar benderfyniadau a chamau gweithredu
- mae ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol yn ymateb yn sensitif i faterion sy'n ymwneud â hunaniaeth, stigma, cyfrinachedd a'r profiad o fod mewn gofal
- mae arweinwyr yn gwerthuso pa mor effeithiol y mae perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr yn cefnogi ymgysylltiad a phrofiadau addysgol dysgwyr

Cwestiynau i gefnogi hunanwerthuso

- Sut ydym ni'n gwybod bod gan ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal oedolion dibynadwy y gallant droi atynt?
- Pa dystiolaeth sy'n dweud wrthym fod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u bod yn perthyn?
- Sut ydym ni'n gwybod bod staff yn deall profiadau dysgwyr ac yn ymateb yn briodol yn eu harfer bob dydd?
- Sut ydym ni'n gwybod bod dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd ac ystyrlon i rannu eu barn, yn hytrach nag ymgynghori â nhw trwy gyfarfodydd ffurfiol yn unig?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod dysgwyr yn dylanwadu ar benderfyniadau am eu dysgu, eu cymorth a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol?

- Pa mor effeithiol ydym ni'n nodi ac yn ymateb i faterion yn ymwneud â hunaniaeth, stigma, cyfrinachedd a'r profiad o fod mewn gofal?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr yn gwella ymgysylltiad dysgwyr â'u profiadau addysgol?

Ffynonellau tystiolaeth posibl

- adborth gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a staff
- cyfranogiad dysgwyr mewn adolygu CAPau a chynllunio cymorth
- enghreifftiau o lais y dysgwr yn llywio cymorth, cynllunio a phenderfyniadau
- gwybodaeth am bresenoldeb, cyfranogiad ac ymgysylltiad
- olrhain achosion ac adolygiadau dysgwyr
- cofnodion o grwpiau neu fforymau cyfranogiad dysgwyr
- tystiolaeth o newidiadau a wnaed er mwyn ymateb i adborth gan ddysgwyr
- dogfennau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Pecyn cymorth 4: Gwerthuso cyfnodau pontio a pharhad

Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cefnogi ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol i fyfyrio ar ba mor effeithiol y maent yn hybu parhad addysgol ac yn cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ystod cyfnodau pontio a chyfnodau o newid.

Nodweddion arfer gryfach

Mewn arfer gryfach:

- mae ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol yn cydnabod bod parhad addysgol yn hanfodol o ran helpu dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i barhau i ymgysylltu â'u dysgu yn ystod cyfnodau o newid
- mae cynllunio ar gyfer pontio a newidiadau yn dechrau'n gynnar ac yn adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion unigol dysgwyr
- caiff gwybodaeth ei rhannu'n brydlon ac yn briodol i gefnogi parhad a lleihau'r angen i ddysgwyr ailadrodd gwybodaeth bersonol
- mae trefniadau'n lleihau aflonyddwch i ddysgu, ymgysylltiad a chymorth pan fydd amgylchiadau'n newid
- mae dysgwyr yn parhau i fod yn hysbys, yn cael eu deall ac yn cael eu cefnogi wrth iddynt symud rhwng darparwyr neu fanteisio ar ddarpariaeth amgen
- mae awdurdodau lleol a darparwyr yn cynllunio'n rhagweithiol i ddiogelu parhad addysg cyfrwng Cymraeg a'r gallu i fanteisio ar gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg pan mai dyma lwybr iaith presennol neu ddewisol y dysgwr
- mae darparwyr yn gweithio ar y cyd i gynnal parhad dysgu, perthnasoedd a chymorth wrth symud lleoliadau, newid ysgolion, pontio i drefniadau gofal parhaol a chyfnodau eraill o ansefydlogrwydd
- mae arweinwyr yn gwerthuso effaith trefniadau pontio a pharhad ar brofiadau, ymgysylltiad a chynnydd dysgwyr

Cwestiynau i gefnogi hunanwerthuso

- Sut ydym ni'n gwybod bod parhad addysgol yn cael ei gynnal wrth symud lleoliadau, newid ysgolion ac yn ystod cyfnodau eraill o ansefydlogrwydd?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod cynllunio pontio yn dechrau'n ddigon cynnar ac yn adlewyrchu anghenion unigol dysgwyr?
- Pa mor effeithiol y mae ein trefniadau rhannu gwybodaeth yn lleihau aflonyddwch i ddysgu a chymorth?
- Pa mor dda y mae ysgolion, UCDau, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill yn cydweithio â'i gilydd i gynnal parhad?

- Sut ydym ni'n gwybod bod dysgwyr yn parhau i fod yn weladwy ac yn parhau i gael cymorth priodol wrth iddynt symud rhwng darparwyr neu fanteisio ar ddarpariaeth amgen?
- Pa mor effeithiol ydym ni'n diogelu parhad addysg cyfrwng Cymraeg dysgwyr a'u gallu i fanteisio ar gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg pan fydd eu trefniadau ysgol, lleoliad gofal neu drefniadau cymorth yn newid?
- Sut ydym ni'n gwybod bod ein trefniadau pontio yn gwella ymgysylltiad, cynnydd a phrofiadau addysgol dysgwyr?

Ffynonellau tystiolaeth posibl

- cynlluniau pontio, adolygiadau a chynlluniau cefnogi dysgwyr
- adborth gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff
- gwybodaeth am bresenoldeb a chynnydd cyn ac ar ôl pontio
- cofnodion o symud lleoliadau a newid ysgolion
- cofnodion o rannu gwybodaeth a gwaith amlasiantaeth
- olrhain achosion ac adolygiadau dysgwyr
- gwybodaeth am gyrchfannau a dilyniant
- trefniadau parhad cyfrwng Cymraeg
- dogfennau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Pecyn cymorth 5: Gwerthuso tegwch a chyfle

Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cefnogi ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol i fyfyrio ar ba mor effeithiol y maent yn nodi, deall ac yn ymateb i anghenion dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan hybu ymdeimlad o berthyn, cyfranogiad a deilliannau teg.

Nodweddion arfer gryfach

Mewn arfer gryfach:

- mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn hysbys ac yn cael eu deall yn eu hysgol neu'r awdurdod lleol, heb gael eu stigmateiddio na'u diffinio gan eu hamgylchiadau
- mae ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol yn creu cyfleoedd diogel i ddysgwyr a theuluoedd rannu gwybodaeth yn wirfoddol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon mewn modd sensitif i lywio cymorth a chynllunio
- mae staff yn deall y gwahaniaeth rhwng cydraddoldeb a thegwch ac yn cydnabod y gallai fod angen cymorth gwahanol ar ddysgwyr i fanteisio ar yr un cyfleoedd a deilliannau â'u cyfoedion
- mae dysgwyr yn profi ymdeimlad cryf o berthyn ac yn cael eu cynnwys yn llawn mewn dysgu ac ym mywyd ehangach yr ysgol
- caiff cymorth ei deilwra i gryfderau, anghenion ac amgylchiadau unigol dysgwyr ac mae'n ystyried ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu ac ymgysylltiad
- mae arweinwyr yn nodi ac yn dileu rhwystrau ymarferol, ariannol a chymdeithasol rhag cyfranogiad
- gall dysgwyr fanteisio'n deg ar ddysgu, gweithgareddau cyfoethogi, gwasanaethau cymorth a'r camau nesaf mewn dysgu, hyfforddiant neu gyflogaeth
- mae arweinwyr a staff yn cynnal disgwyliadau uchelgeisiol ac yn monitro a yw darpariaeth yn lleihau rhwystrau ac yn gwella deilliannau

Cwestiynau i gefnogi hunanwerthuso

- Sut ydym ni'n gwybod bod pob grŵp o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu nodi a'u deall o fewn ein systemau?
- Ble gallai dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu neu ddysgwyr sydd dan drefniadau gofal gan berthynas neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig fod yn llai gweladwy
- Pa mor effeithiol ydym ni'n creu diwylliant lle mae dysgwyr a theuluoedd yn teimlo'n ddiogel i rannu gwybodaeth am y profiad o fod mewn gofal, gan hyderu y bydd eu dymuniadau ynghylch cyfrinachedd yn cael eu parchu ac y caiff y wybodaeth ei thrin mewn modd sensitif i ddarparu cymorth priodol?

- Sut ydym ni'n gwybod bod y cwricwlwm yn gynhwysol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac nad yw gweithgareddau, cynnwys a dulliau addysgu yn eu heithrio, yn eu stigmateiddio neu'n eu rhoi dan anfantais yn anfwriadol?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo eu bod yn perthyn ac y gallant gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol?
- Sut ydym ni'n gwybod bod rhwystrau rhag dysgu, cyfranogiad a chyflawniad yn cael eu nodi a'u dileu?
- Pa dystiolaeth sy'n dweud wrthym y gall dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal fanteisio'n deg ar ddysgu, gweithgareddau cyfoethogi a chyfleoedd dilyniant?
- Sut ydym ni'n gwybod bod ein disgwyliadau yr un mor uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ag y maent ar gyfer dysgwyr eraill?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod ein darpariaeth yn gwella deilliannau ac yn lleihau anghydraddoldebau dros amser?

Ffynonellau tystiolaeth posibl

- adborth gan ddysgwyr, gofalwyr a staff
- gwybodaeth am bresenoldeb, ymgysylltiad, cynnydd a deilliannau
- y gallu i fanteisio ar y cwricwlwm, llwybrau cymwysterau a chyfranogiad mewn gweithgareddau cyfoethogi ac ym mywyd ehangach yr ysgol
- data cyrchfannau a chynnydd
- cofnodion yn ymwneud â nodi a monitro dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- cyfranogiad mewn ymweliadau addysgol, gweithgareddau cyfoethogi, cyfleoedd arwain i ddysgwyr a phrofiadau ehangach yr ysgol
- gwybodaeth am ADY, presenoldeb a lles
- gwybodaeth am barhad a phontio cyfrwng Cymraeg
- dogfennau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- adroddiadau rhianta corfforaethol ac adroddiadau monitro'r awdurdod lleol
- adolygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- olrhain achosion ac adolygiadau cefnogi dysgwyr

Atodiad 1: Cwestiynau myfyriol i lywodraethwyr

Addaswyd o ddeunyddiau hyfforddiant i lywodraethwyr a ddatblygwyd gan Ysgol Rithwir Caerdydd

Bwriad y cwestiynau hyn yw helpu llywodraethwyr i werthuso pa mor effeithiol y mae eu hysgol yn hybu addysg, lles a dyheadau dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac yn cyflawni ei chyfrifoldebau rhianta corfforaethol.

Gweledigaeth a goruchwyliaeth strategol

- Faint o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n mynychu'r ysgol, gan gynnwys y rhai nad ydynt efallai'n derbyn gofal ffurfiol, mwyach?
- Sut mae'r corff llywodraethol yn sicrhau ei hun bod yr ysgol yn creu amgylchedd diogel a pharchus lle mae dysgwyr, teuluoedd a gofalwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhannu gwybodaeth am y profiad o fod mewn gofal yn wirfoddol?
- Sut mae'r corff llywodraethol yn sicrhau ei hun bod dysgwyr y mae eu hamgylchiadau'n hysbys yn cael eu deall a'u hystyried yn briodol mewn gweithgarwch gwella ysgol a hunanwerthuso?
- A oes athro dynodedig a llywodraethwr cyswllt ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?
- Sut mae'r corff llywodraethol yn monitro profiadau, lles, presenoldeb, cynnydd a deilliannau pob dysgwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?

Perthyn, perthnasoedd a chyfranogiad

- Sut mae arweinwyr yn gwybod a yw dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cynnwys a'u bod yn perthyn i gymuned yr ysgol?
- Pa gyfleoedd y mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu cael i gyfrannu eu barn a dylanwadu ar benderfyniadau?
- Sut mae arweinwyr yn monitro cyfranogiad mewn gweithgareddau cyfoethogi, teithiau, cyfleoedd arwain a bywyd ehangach yr ysgol?
- Sut mae'r ysgol yn dathlu ac yn cydnabod cyflawniadau a llwyddiannau dysgwyr?

Dealltwriaeth a chymorth staff

- Pa ddysgu proffesiynol y mae staff wedi ymgymryd ag ef yn ymwneud â'r profiad o fod mewn gofal, ymlyniad ac arfer sy'n ystyriol o drawma?
- Sut mae arweinwyr yn gwybod bod y dysgu hwn yn dylanwadu ar arfer o ddydd i ddydd?

- Pa mor effeithiol y mae Cynlluniau Addysg Personol (CAPau) yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu, cyfranogiad a dyheadau?
- Pa mor effeithiol y caiff ADY a'r profiad o fod mewn gofal eu hystyried gyda'i gilydd wrth gynllunio cymorth?

Uchelgais, disgwyliadau a deilliannau

- Pa mor dda y mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn?
- Sut mae arweinwyr yn monitro cynnydd addysgol ochr yn ochr â phresenoldeb a lles?
- Sut mae llywodraethwyr yn gwybod bod disgwyliadau ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ddigon uchelgeisiol?
- Pa dystiolaeth sydd bod dysgwyr yn cyflawni eu potensial ac yn symud yn llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth?

Pontio a pharhad

- Sut mae'r ysgol yn cefnogi dysgwyr sy'n ymuno yng nghanol y flwyddyn neu'n symud rhwng cyfnodau?
- Sut caiff parhad ei gynnal wrth newid lleoliadau neu yn ystod newidiadau i gymorth proffesiynol?
- Pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn cefnogi dilyniant i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant?

Myfyrio ar eich rôl rhianta corfforaethol

- Sut mae'r ysgol yn cyfrannu at ei rôl fel rhan o'r teulu corfforaethol?
- A fyddem yn fodlon pe byddai'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu i'n plant ein hunain?
- Beth yw cryfderau'r ysgol o ran cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?
- Beth sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella?